# ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YN YR YSGOL

## CYNLLUN GWEITHREDU I GYMRU

## Adroddiad y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol

2001

# NID OES UN PETH PWYSICACH NAG IECHYD POBL CYMRU

# BETH ALL GAEL YR EFFAITH BWYSICAF AR EU HIECHYD A’U FFITRWYDD?

# ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YN YR YSGOL

| CYNNWYS | TUDALEN |
| --- | --- |

**Cyflwyniad** **4**

**Crynodeb o’r Argymhellion Allweddol** **7**

**Adran 1: Addysg Gorfforol mewn Ysgolion** **8**

*1.1 Rheoli addysg gorfforol* **8**
*1.2 Rhoi digon o amser i addysg gorfforol* **9**
*1.3 Parhad a dilyniant yn y dysgu* **10**

**Adran 2: Hyfforddi** **11**

*2.1 Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon* **11**
*2.2 Datblygiad Proffesiynol Parhaus* **12**

**Adran 3: Cyfleusterau ac Adnoddau** **14**

**Adran 4: Chwaraeon yn yr Ysgol** **15**

**Adran 5: Y Ffordd Ymlaen** **17**

**ATODIADAU**

*Atodiad 1 Materion ar gyfer gweithredu* **20**
*Atodiad 2 Rhestr termau* **22**
*Atodiad 3 Aelodau’r tasglu* **23**

## CYFLWYNIAD

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i wella iechyd pobl Cymru ac mae'n rhoi pwysigrwydd mawr ar addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. Sefydlwyd y **Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol** ym Mai 2000 i gynghori'r Cynulliad ar sut i atgyfnerthu safle addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Ei dasg oedd ystyried y ddarpariaeth bresennol ac argymell ffyrdd o wella safonau cyffredinol addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol ar gyfer holl bobl ifainc Cymru.

## CYLCH GORCHWYL Y TASGLU

- Adnabod y materion allweddol sydd yn effeithio ar addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol ac argymell ffyrdd o wella'r ddarpariaeth ar gyfer holl bobl ifainc Cymru.

- Cytuno ar weledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol yn y dyfodol a hyrwyddo'r weledigaeth hon.

- Adnabod a hyrwyddo arfer da mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

- Adolygu natur ac effeithiolrwydd mentrau cyfredol sy'n anelu at wella ansawdd addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

## CEFNDIR

Mae i addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol botensial o ran mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n codi mewn ysgolion. Er enghraifft, maent yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sydd wedi'u dadrithio; gallant fod o gymorth i wella ysgol, codi lefel ffitrwydd disgyblion a'u hannog i ddilyn ffordd iach o fyw. Gall addysg gorfforol a chwaraeon o ansawdd da yn yr ysgol helpu i wneud chwaraeon ac ymarfer corff iach yn arferion sy'n para gydol oes, pan gânt eu haddysgu yn dda gan athrawon ysbrydoledig, hyfforddwyr sydd â chymwysterau priodol ac oedolion wedi'u hyfforddi sy'n gwirfoddoli.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae'r safonau cyffredinol mewn addysg gorfforol wedi gwella. Fodd bynnag, mae swm y gwaith da neu dda iawn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi mynd i lawr. Mae lefelau ffitrwydd ymhlith pobl ifainc yn fater o bryder. Nid oes digon o sylw'n cael ei dalu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ieuenctid o faterion yn ymwneud ag iechyd nac i godi safonau iechyd, ymarfer corff a ffitrwydd. Mae llai o'n hieuenctid yn cerdded i'r ysgol yn awr ac mae llawer yn treulio mwy a mwy o amser yn eistedd a gwneud pethau fel chwarae gemau cyfrifiadur neu wylio'r teledu. Mae mwy a mwy o bobl ifainc yng Nghymru dros bwysau

ac yn bwyta diet afiach.

Mae’n amlwg fod arferion sy’n cael eu ffurfio yn ystod ein plentyndod yn parhau yn rhan ohonom yn ddiweddarach yn ein hoes. Bydd pobl ifainc yn fwy abl i fwynhau ffordd o fyw foddhaus ac iach fel oedolion os ydynt yn ffit ac yn heini. Er mwyn cyflawni hyn, mae’n rhaid i’r ysgolion sicrhau bod iechyd corfforol a lefelau ffitrwydd pobl ifainc yn cyrraedd y safonau uchaf posibl.

Yr egwyddor allweddol y tu ôl i’r adolygiad diweddar o’r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yng Nghymru oedd y dylai pob person ifanc fod â hawl i dderbyn cwricwlwm eang a chytbwys. Mae addysg gorfforol yn rhan hanfodol o’r cwricwlwm hwn ac mae angen iddi dderbyn amser digonol yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae’r adolygiad hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer pobl ifainc 15 ac 16 oed fel y gall ysgolion wneud eu cwricwlwm addysg gorfforol hwy yn fwy addas ar gyfer ystod anghenion a diddordebau pobl ifainc. Gobeithio y bydd hyn yn cymell pobl ifainc i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol pwrpasol waeth beth fo eu rhyw, eu gallu, eu hanabledd, eu cefndir ethnig na’u lleoliad daearyddol.

Yn ogystal â gosod sylfeini ar gyfer sgiliau mewn chwaraeon a chynyddu iechyd a ffitrwydd, mae addysg gorfforol yn rhan hanfodol o ddatblygiad personol a chymdeithasol ac mae iddi effaith bwysig ar draws y cwricwlwm cyfan. Yn aml, caiff ansawdd addysg gorfforol ysgol a’r ddarpariaeth a wna ar gyfer chwaraeon yn yr ysgol ddylanwad uniongyrchol ar ansawdd ei hethos cyffredinol.

Mae person ifanc sydd wedi cael ei addysgu yn gorfforol:

- yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol;
- yn gorfforol ffit;
- yn gwybod beth mae cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ei olygu ac yn cael budd ohono;
- yn rhoi gwerth ar weithgareddau corfforol a’r cyfraniad a wnânt at ffordd iach o fyw;
- wedi dysgu sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni amrywiol weithgareddau corfforol.

Y disgrifiad gorau o addysg gorfforol yw gwersi cynlluniedig, strwythuredig sydd yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys. Fodd bynnag, er mwyn i’r ddarpariaeth fod yn gwbl effeithiol, mae hefyd yn hanfodol cael cyfleoedd cefnogol ar gyfer chwaraeon y tu allan i amser y cwricwlwm. Ymhlith y rhain mae:

- gweithgareddau yn ystod amser cinio, cyn ac ar ôl yr ysgol sydd yn cynnwys cyfleoedd strwythuredig ac anstrwythuredig i brofi gweithgareddau newydd, ymarfer sgiliau sydd gan ddisgyblion eisoes a datblygu sgiliau newydd;

- dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- chwaraeon yn yr ysgol sydd yn caniatáu i ddisgyblion baratoi ar gyfer chwaraeon neu weithgareddau lle byddant yn cynrychioli eu hysgol, eu tref, eu bro neu eu sir, a chymryd rhan yn y gweithgareddau hynny;
- Clybiau Iau, sef clybiau chwaraeon gydag adran ar wahân ar gyfer yr ifanc;
- chwaraeon cymunedol sydd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu mewn chwaraeon, mewn canolfannau hamdden ac adloniant a grwpiau ieuenctid a chymunedol.

Yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau ysgolion, mae Estyn wedi tynnu sylw at nifer o faterion o bwys:

- mae safonau da mewn addysg gorfforol yn dibynnu ar reoli'r pwnc yn effeithiol, sydd yn cynnwys rhoi digon o amser cwricwlwm fel y gall pobl ifainc wneud cynnydd a gwella safon eu perfformiad;
- ceir ansawdd cyson yn y paratoad a roddir i hyfforddeion mewn cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i addysgu addysg gorfforol;
- nid oes cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael bob amser ar gyfer athrawon ac nid ydynt bob amser yn cael eu cyd-drefnu'n dda;
- nid yw'r cyfleusterau a'r adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol mewn llawer o ysgolion ac yn aml maent mewn cyflwr gwael;

- ni cheir digon o bartneriaeth strategol a chydgysylltu rhwng addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol ac mae hyn yn rhwystro disgyblion rhag cael mynediad cyfartal at chwaraeon yn yr ysgol ym mhob rhan o Gymru.

Bydd yr agwedd strategol a amlinellir yn argymhellion yr adroddiad hwn yn galluogi Cymru i ddatblygu cenedl o bobl ifainc heini, ffit a chorfforol dalentog, mewn gwell safle o lawer i fwynhau bywyd a fydd yn rhoi iddynt foddhad ac iechyd fel oedolion.  Trwy wneud hyn, bydd hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer cael mabolgampwyr penigamp i gystadlu gyda goreuon y byd.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION ALLWEDDOL

1. **Codi safonau mewn addysg gorfforol trwy sicrhau bod pob ysgol:**

- **yn rheoli'r pwnc yn effeithiol o fewn cwricwlwm yr ysgol gyfan;**
- **yn gosod targedau heriol ar gyfer codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol;**
- **yn darparu digon o amser cwricwlwm i addysgu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol;**
- **yn datblygu sgiliau corfforol pobl ifainc o'r naill flwyddyn i'r llall a gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd.**

2. **Sicrhau bod Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn rhoi i hyfforddeion yr hyder, yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu addysg gorfforol.**

3. **Codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol trwy sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus cydnabyddedig ar gyfer pob athro ac athrawes.**

4. **Gwella ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru.**

5. **Cefnogi ysgolion yng Nghymru i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon yn yr ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol trwy wella ansawdd ac ehangder gweithgareddau ar ôl oriau ysgol ar gyfer pob person ifanc, waeth beth fo ei oed, ei allu, ei gefndir ethnig, ei ryw na'i leoliad daearyddol.**

6 **Sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm a sicrhau eu bod yn cydweithio er mwyn adnabod a datblygu arfer da mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.**

## ADRAN 1: ADDYSG GORFFOROL YNG NGHWRICWLWM YR YSGOL

**Codi safonau mewn addysg gorfforol trwy sicrhau bod pob ysgol:**

- **yn rheoli'r pwnc yn effeithiol o fewn cwricwlwm cyfan yr ysgol, gan gynnwys gosod targedau er mwyn codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol;**
- **darparu digon o amser i athrawon gyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol;**
- **datblygu dilyniant yn sgiliau corfforol pobl ifainc, gan gynnwys gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd.**

### 1.1 RHEOLI ADDYSG GORFFOROL

Mae gwneud darpariaeth dda ar gyfer addysg gorfforol yn hanfodol mewn ysgol gyflawn, effeithiol. Ceir cyswllt cryf rhwng llwyddiant academaidd a chyflawniadau uchel mewn addysg gorfforol. Mae llawer o arfer da i'w weld o ran darparu a rheoli addysg gorfforol yng Nghymru, fel y mae Estyn a Chyngor Chwaraeon Cymru wedi nodi. Yn y ddarpariaeth orau, mae addysg gorfforol yn cael proffil uchel mewn ysgol ac mae parhau i'w datblygu yn cael ei nodi yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae rheolwyr yr ysgol hefyd yn cydnabod rhan mor bwysig y gall addysg gorfforol ei chwarae nid yn unig yn llwyddiant academaidd pobl ifainc ond hefyd yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'n rhaid rheoli yn effeithiol y modd yr addysgir ac y dysgir addysg gorfforol er mwyn sicrhau cysondeb mewn cyrhaeddiad ac wrth wella safonau drwy Gymru. Mae angen i ysgolion sicrhau eu bod yn cynnig rhaglen eang a chytbwys sydd yn berthnasol i anghenion yr holl bobl ifainc ac a fydd yn cael effaith barhaol ar eu bywydau o ran parhau i gyfranogi a byw bywydau iach. Mae'n rhaid i'r rhaglen hon gynnwys pawb a chynnwys y ddau ryw, pob cefndir ethnig ac anghenion arbennig. Dylai'r holl bobl ifainc fod â hawl i drefniadau priodol, gan gynnwys cefnogaeth ychwanegol gan athrawon os bydd angen.

Mae rhannu arfer da yn arwain at fwy o gysondeb mewn safonau, gan ysgogi ysgolion, adrannau ac athrawon unigol a helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer athrawon addysg gorfforol o fewn Awdurdodau Addysg Lleol a rhwng Awdurdodau. Mae nifer o asiantaethau wedi nodi enghreifftiau o arfer da mewn addysg gorfforol, gan gynnwys Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), Estyn a Chyngor Chwaraeon

Cymru.

**Rydym yn argymell:**

**1.1.1 y dylai prifathrawon nodi meysydd ar gyfer datblygu mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol, fel rhan o gynllun datblygu'r ysgol;**

**1.1.2 y dylai adrannau addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd nodi targedau meintiol ac ansoddol yn eu cynlluniau datblygu pwnc gyda'r nod o godi safonau. Dylai'r targedau hyn gynnwys addysg berthynol i iechyd a materion ffitrwydd;**

**1.1.3 y dylai pob adroddiad ar arolygiad ysgol gynradd gynnwys adroddiad ar y safonau mewn addysg gorfforol.**

## 1.2 AMSER

Roedd y Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol ymhlith y rhai olaf i'w cyhoeddi. Er bod hyn wedi rhoi rhagor o amser i athrawon baratoi, roedd hefyd yn caniatáu i bynciau eraill hawlio rhagor o amser i ymdrin â gofynion eu Gorchmynion hwy. Arweiniodd hyn at leihad mawr yn yr amser a ddyrannwyd ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol, er iddo fod yn bwnc gorfodol ym mhob un o'r pedwar cyfnod allweddol.

Mae Estyn a Chyngor Chwaraeon Cymru ill dau wedi tynnu sylw at y lleihad yn yr amser sydd ar gael ar gyfer addysg gorfforol mewn nifer o arolygon ac adroddiadau. Daethant i'r casgliad bod y gostyngiadau hyn wedi arwain at safonau is a llai o gyfleoedd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gymru. Mae'n rhaid cywiro'r anghydbwysedd hwn os yw'r ysgolion am ddatblygu rhaglenni addysg gorfforol effeithiol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar symbyliad disgyblion, eu cyfranogiad a'u cyflawniad mewn gweithgareddau corfforol, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

Mae data Estyn yn dangos bod lefelau gweithgarwch pobl ifainc (pobl 5-18 oed) yn isel a bod gormod ohonynt heb fod yn cael digon o ymarfer corff i hyrwyddo iechyd cardiofasgwlaidd. Gwelwyd lleihad graddol yng ngweithgarwch corfforol wythnosol pobl ifainc, yn enwedig genethod. Yr hyn sy'n gwneud hyn yn

waeth yw’r ffaith fod gweithgareddau allgwricwlaidd yn tueddu o ddarparu ar gyfer y bobl ifainc mwyaf galluog a chystadleuol yn hytrach nac ar gyfer pawb.  Ni ellir anwybyddu pwysigrwydd addysg gorfforol ar gyfer iechyd a ffitrwydd ein holl bobl ifainc.

**Rydym yn argymell:**

**1.2.1 bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud addysg gorfforol yn bwnc craidd o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol;**

**1.2.2 bod ysgolion yn dyrannu o leiaf 2 awr o amser cwricwlwm ar gyfer addysg gorfforol bob wythnos ym mhob cyfnod allweddol ac ar gyfer pob person ifanc;**

**1.2.3 y dylai'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar gyfer defnyddio amser cwricwlwm yn effeithiol gan ddefnyddio astudiaethau achos o adroddiadau AALl ac Estyn.**

## 1.3 PARHAD A DILYNIANT YN Y DYSGU

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol yng Nghymru wedi amlinellu hawl sylfaenol yr holl bobl ifainc. Fodd bynnag, ceir gormod o amrywiaeth yn y profiadau a gaiff disgyblion gydag addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol oherwydd gwahaniaethau yn yr ariannu, a oes staff ar gael sydd wedi arbenigo yn y pwnc, y gefnogaeth a geir gan reolwyr, ansawdd y cyfleusterau a lleoliad daearyddol. Oherwydd hyn, nid yw'r ysgolion yn gallu darparu patrwm cyson yn y ddarpariaeth. Mae adroddiadau arolygiadau Estyn hefyd yn dangos nad yw'r cysylltiadau cwricwlaidd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn aml yn ddigon da i hyrwyddo ymhellach y cynnydd a wnaed gan bobl ifainc.

Yn yr un modd, nid yw'r disgyblion yn aml yn gwneud cynnydd cyson yn yr ysgolion hynny lle mae'r prif le addysgu dan do yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau eraill am gyfnodau sylweddol o amser, er enghraifft ar gyfer arholiadau a chyngherddau ysgol. Mae hyn yn andwyo'n ddifrifol barhad rhaglenni addysg gorfforol ac yn llesteirio'r cynnydd y gall y disgyblion ei wneud. Yn ystod cyfnodau pan geir llawer o dywydd gwael, mae colli'r adnoddau yn cael effaith waeth. Bydd ysgolion yn aml yn amserlennu llawer o ddisgyblion i gael addysg gorfforol ar yr un pryd. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar drefniadaeth dysgu'r disgyblion ac yn aml yn arwain at symbyliad gwael. Mae'r pethau hyn yn achosi pryder dwys.

**Rydym yn argymell:**

**1.3.1 y dylai Awdurdodau Addysg Lleol, gyda nawdd gan y Cynulliad, sefydlu system o gael cyd-gysylltwyr addysg gorfforol er mwyn codi safonau, rhannu arfer da a gweithio gyda grwpiau o ysgolion a'u timau uwch reolwyr i'w helpu i gynllunio'r cwricwlwm gyda'i gilydd;**

**1.3.2 y dylai ysgolion reoli eu cyfleusterau yn effeithiol, yn**

**enwedig campfeydd a neuaddau chwaraeon a rhoi'r brif flaenoriaeth bob amser i'w defnyddio ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.**

## ADRAN 2: HYFFORDDI

### 2.1 ADDYSG GORFFOROL YN ADDYSG A HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON

**Sicrhau bod Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn cynysgaeddu'r hyfforddeion â'r hyder, yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu addysg gorfforol.**

Ceir ar hyn o bryd amrywiaeth mawr yn ansawdd yr hyfforddiant mewn addysg gorfforol a ddarperir ar gyfer hyfforddeion, yn enwedig ar gyfer y sector cynradd. Yn aml, nid yw'r amser a roddir ar gyfer hyfforddiant mewn prifysgol neu goleg yn ddigon i alluogi hyfforddeion i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu'r pwnc yn fedrus a hyderus. Ceir hefyd lawer o amrywiaeth yn ansawdd yr hyfforddiant mewn addysg gorfforol a ddarperir gan ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd. Ni all athrawon sydd heb lawer o wybodaeth bynciol yn aml roi i hyfforddeion lefelau priodol o gefnogaeth a chyfarwyddyd i wella eu harfer. Mae'n hanfodol bod pob hyfforddai yn cael cyfle i arsylwi ar arfer da gydag addysgu a rheoli addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

Ceir lleiafrif o hyfforddeion cynradd sydd yn cwblhau eu cwrs heb iddynt erioed addysgu addysg gorfforol. Mae hyn yn achos pryder mawr. Mae addysg gorfforol yn wahanol iawn i'r rhan fwyaf o bynciau eraill yn y cwricwlwm oherwydd ei fod yn bwnc ymarferol ac oherwydd yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir. Mae diogelwch yn hollbwysig. Os ydym am wella safonau, mae angen gwneud newidiadau sylfaenol yn y modd y caiff hyfforddeion eu paratoi ar gyfer addysgu addysg gorfforol.

**Rydym yn argymell:**

**2.1.1 bod y Cynulliad yn paratoi Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Addysg Gorfforol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon er mwyn gwella'r cysondeb yn ansawdd yr hyfforddiant drwy Gymru;**

**2.1.2 y dylai pob darparwr Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon roi i hyfforddeion nifer y cytunir arno o oriau o hyfforddiant mewn addysgu addysg gorfforol er mwyn**

**diwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol bwriedig mewn addysg gorfforol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a sicrhau eu bod yn cyflawni isafswm lefel medrusrwydd a gaiff ei ddiffinio yn glir erbyn iddynt gwblhau eu cwrs;**

**2.1.3 bod yn rhaid i bob hyfforddai gynnwys cyfeiriad at lefelau medrusrwydd a gyflawnwyd mewn addysg gorfforol yn eu Proffil Dechrau Gyrfa (PDG);**

**2.1.4 y dylai'r Cynulliad gomisiynu arolwg o arfer da wrth fentora hyfforddeion mewn addysg gorfforol yn ystod eu cwrs Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.**

## 2.2 DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

**Codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol trwy sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus cydnabyddedig ar gyfer pob athro ac athrawes.**

Mae addysg gorfforol a chwaraeon o ansawdd uchel yn yr ysgol yn dibynnu ar gael athrawon a hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi yn briodol ac sydd â chymwysterau da, ac sydd yn diweddaru eu sgiliau yn rheolaidd a systematig trwy gyfrwng hyfforddiant perthnasol. Ar hyn o bryd, ceir gormod o amrywiaeth o ran pa gyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar gael ac o ran ansawdd y rhain, ac nid ydynt yn cael eu cyd-drefnu'n dda. Y prif reswm am hyn yw nad oes strategaeth genedlaethol yn bod sydd yn cymryd i ystyriaeth anghenion a dyheadau proffesiynol athrawon unigol, anghenion a blaenoriaethau ysgolion unigol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf fe welwyd gostyngiad ym maint y gwaith da mewn ysgolion cynradd. Mewn ysgolion uwchradd, nid yw safonau cystal at ei gilydd ag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl ac mae maint y gwaith da wedi gostwng yn sylweddol. Mewn ysgolion cynradd, lle mae'r rhan fwyaf o athrawon addysg gorfforol yn rhai heb arbenigo yn y pwnc, mae angen rhagor o gefnogaeth a datblygu os yw'r safonau am wella.

Mewn rhai Awdurdodau Addysg Lleol ni cheir staff ymgynghorol ar gyfer addysg gorfforol ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg cefnogaeth ar gyfer llawer o athrawon sy'n addysgu, rhai sydd newydd gymhwyso, rhai sydd heb fod yn arbenigwyr ac athrawon llanw. At hynny, mae llawer o athrawon hefyd yn methu cael mynd ar gyrsiau hyfforddwyr y Corff Llywodraethu Cenedlaethol.

**Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol:**

**2.2.1 nodi'r meysydd sydd i dderbyn blaenoriaeth o ran datblygu athrawon mewn addysg gorfforol;**

**2.2.2 sefydlu Bwrdd Datblygu Proffesiynol ar gyfer Addysg**

**Gorfforol yng Nghymru i drefnu strategaeth ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ansawdd datblygiad proffesiynol cydnabyddedig i athrawon addysg gorfforol. Dylai cylch gorchwyl y grŵp hwn gynnwys:**

* *mabwysiadu'r 'Cod Ymarfer ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Addysg Gorfforol', a ddarparwyd gan y cymdeithasau pwnc addysg gorfforol, a'i gymhwyso i bob Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y dyfodol;*
* *sefydlu portffolios datblygu gyrfa ar gyfer pob athro ac athrawes addysg gorfforol, yn gysylltiedig â chymwyseddau cyffredin ar gyfer athrawon;*
* *darparu rhaglenni penodol ar gyfer datblygu'n broffesiynol, i athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon llanw.*

**2.2.3 sefydlu trefn i helpu pob athro ac athrawes a hyfforddai i allu mynd ar raglenni addysg hyfforddwyr cenedlaethol gan gynnwys ysgol haf o gyrsiau dan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso a hyfforddeion Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon;**

**2.2.4 gwneud addysg gorfforol yn rhan orfodol o unrhyw drefn ar gyfer sefydlu athrawon neu ar gyfer datblygiad proffesiynol cynnar a gyflwynir yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu arferion diogel;**

**2.2.5 sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer pob arolygwr, mentor a thiwtor mewn addysg gorfforol sydd heb fod yn arbenigwyr;**

**2.2.6 sefydlu system o gyd-gysylltwyr ar gyfer addysg gorfforol yn yr ysgol a'u hyfforddi i ddarparu cefnogaeth i athrawon cynradd er mwyn gwella safonau;**

**2.2.7 darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol penodol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon llanw.**

## ADRAN 3: CYFLEUSTERAU AC ADNODDAU

**Gwella ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru.**

Mae ystod ac ansawdd y cyfleusterau yn cael dylanwad mawr ar ehangder, cydbwysedd a dilyniant mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion, ceir llawer o wendidau yn y cyfleusterau a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol a gweithgareddau allgwricwlaidd. Mae rhai cyfleusterau mewn cyflwr gwael. Mae cynnal a chadw annigonol ac oedi wrth gyflawni gwaith trwsio angenrheidiol yn tarfu'n ddifrifol ar y ddarpariaeth. Ceir nifer o ysgolion sydd yn rheolaidd yn defnyddio cyfleusterau cyhoeddus nad ydynt ar safle'r ysgol er mwyn ychwanegu at y ddarpariaeth; er enghraifft, ar gyfer gwersi nofio sydd yn rhan orfodol o gwricwlwm addysg gorfforol mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae prinder arian ar gyfer cludiant a ffioedd gweithredu yn aml yn rhwystro ysgolion rhag gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys cyfleusterau hamdden eraill yr awdurdod lleol.

Gwneir mwy a mwy o ddefnydd o gyfleusterau addysg gorfforol ar gyfer gweithgareddau eraill megis arholiadau ysgol. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar waith cynllunio a chyflwyno athrawon mewn Addysg Gorfforol a'r safonau a gyflawnir gan bobl ifainc.

Bydd sicrhau bod disgyblion yn cael gwneud defnydd helaethach o gyfleusterau ac adnoddau sydd o ansawdd da yn gymorth i sicrhau bod rhagor o bobl ifainc yn cael cyfle i gymryd rhan lawn mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. Dylid annog pob ysgol i sefydlu rhaglen strwythuredig ar gyfer datblygu, monitro a chynnal a chadw cyfleusterau addysg gorfforol a chwaraeon sydd o ansawdd da.

**Rydym yn argymell:**

**3.1 y dylai Estyn nodi safonau sylfaenol ar gyfer cyfleusterau addysg gorfforol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;**

**3.2 y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu swm sylweddol o'r arian Loteri Genedlaethol ychwanegol y gwnaed cyhoeddiad amdano yn ddiweddar gan Brif Weinidog Cymru, i Awdurdodau Addysg Lleol er mwyn datblygu a chynnal a chadw cyfleusterau mewn ysgolion;**

**3.3 y dylid sefydlu agwedd strategol at ddarparu cyfleusterau mewn ysgolion ac yn y gymuned;**

**3.4 y dylid rheoli yn fwy effeithiol gyfleusterau mewn ysgolion, megis campfeydd a neuaddau chwaraeon gan roi'r**

**brif flaenoriaeth i ddefnydd arbenigol ohonynt ar gyfer gofynion addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.**

## ADRAN 4: CHWARAEON YN YR YSGOL

**Cefnogi ysgolion yng Nghymru i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon yn yr ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol trwy wella ansawdd ac ehangder gweithgareddau ar ôl oriau ysgol ar gyfer pob person ifanc waeth beth fo ei oed, ei allu, ei gefndir ethnig, ei ryw na'i leoliad daearyddol.**

Mae tystiolaeth adroddiadau arolygwyr Estyn ac arolygon Cyngor Chwaraeon Cymru yn tynnu sylw at ystod o weithgareddau allgwricwlaidd sy'n cwmpasu gweithgareddau adloniadol sydd heb fod yn gystadleuol yn ogystal â gemau tîm cystadleuol mwy traddodiadol. Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu lle mae ysgolion yn cydweithio'n glòs â gwahanol asiantaethau chwaraeon yn eu hardal. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn digwydd. At ei gilydd, ni cheir digon o waith partneriaeth strategol a chydgysylltu rhwng addysg gorfforol a chwaraeon i bobl ifainc.

Ceir cysylltiad amlwg yn gyffredinol rhwng safonau cyflawniad mewn ysgolion ac ansawdd y ddarpariaeth o ran gweithgareddau allgwricwlaidd a'r cyfranogiad a'r llwyddiant a geir mewn ystod o'r rhain. Mae'n bwysig bod pob disgybl yn cael yr un hawl i fanteisio ar gyfleoedd mewn chwaraeon waeth beth fo ei allu, ei anabledd, ei dalent, ei ddiddordeb, ei ryw, ei gefndir ethnig na lleoliad trefol neu wledig y man lle mae'n byw. Dylid annog disgyblion i wella eu perfformiad eu hunain hefyd, a mynd ymlaen i lefel uwch lle bo hynny'n briodol. Er mwyn i hynny ddigwydd bydd angen rhagor o gefnogaeth ac arbenigedd wrth hyfforddi, os yw'r darparwyr presennol am ehangu'r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon y tu allan i'r ysgol.

Er mwyn cael rhagor o enethod i gymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol, mae angen adolygu'r ymdriniaeth a geir ar hyn o bryd yn y cyfryngau â menywod mewn chwaraeon. Mae angen talu sylw hefyd i hyrwyddo rôl-fodelau effeithiol a fydd yn gwella symbyliad genethod.

Mewn llawer man ledled Cymru, mae angen teithio llawer i gyrraedd cyfleusterau chwaraeon y tu allan i safle'r ysgol ac, mewn llawer o achosion, mae angen cludiant ychwanegol i sicrhau bod pobl ifainc yn cyrraedd adref yn ddiogel. Mae angen rhannu adnoddau, cysylltiadau mwy clòs, cynlluniau y cytunwyd arnynt yn lleol ac arian ychwanegol er mwyn cefnogi'r ysgolion hyn yn eu hymdrechion i ddatblygu parhad a dilyniant

yn sgiliau chwaraeon pobl ifainc. Dylid annog Awdurdodau Addysg Lleol i wneud cais am arian o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i gefnogi dysgu y tu allan i'r ysgol mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

Mae angen arfarnu'r ystod o weithgareddau allgwricwlaidd yn rheolaidd a chyson er mwyn sicrhau bod ehangder y gweithgareddau sydd ar gael yn diwallu gwahanol anghenion a diddordebau pobl ifainc ac y sicrheir ansawdd yr holl ddarpariaeth. Mae angen i Awdurdodau Addysg Lleol gymryd hyn i ystyriaeth wrth adolygu eu Cynllun Strategol Addysg.

**Rydym yn argymell:**

**4.1 y dylai pob ysgol fabwysiadu agwedd strategol at gynllunio a rhoi ar waith gyfleoedd ar gyfer chwaraeon yn yr ysgol, i bob person ifanc waeth beth fo ei oed, ei ryw, ei allu, ei gefndir ethnig na'i leoliad daearyddol;**

**4.2 y dylai ysgolion fabwysiadu agwedd gyd-drefnedig wrth gynllunio addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol er mwyn defnyddio adnoddau yn y gymuned yn effeithlon ac effeithiol;**

**4.3 y dylai cyd-gysylltwyr traws-gyfnodol mewn ysgolion gydweithio â'r rhai sy'n darparu chwaraeon yn y gymuned er mwyn darparu seilwaith cynaladwy ar gyfer datblygu chwaraeon yn yr ysgol;**

**4.4 y dylid arfarnu yn flynyddol y cyfleoedd a geir ar gyfer dysgu y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys chwaraeon, ac y dylai Awdurdodau Addysg Lleol wneud cais am arian o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd;**

**4.5 y dylid sefydlu Cymdeithas Chwaraeon Ysgol Ranbarthol gyda nawdd priodol a chan gynnwys athrawon cynradd ac uwchradd, Swyddogion Datblygu Chwaraeon, Swyddogion Datblygu Rhanbarthol a chyd-gysylltwyr Chwaraeon y Ddraig, er mwyn cyd-drefnu chwaraeon mewn ysgolion o fewn Awdurdodau Addysg Lleol a thrwy Gymru benbaladr;**

**4.6 y dylid ehangu Menter Chwaraeon y Ddraig er mwyn cynnwys ysgolion uwchradd.**

# A STRWYTHUR AR GYFER DATBLYGU MENTRAU ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YN YR YSGOL

**Sefydlu strwythur cydweithredol gyda Chanolfannau Datblygu Cwricwlwm er mwyn adnabod a datblygu arfer da mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.**

Mae'r argymhellion a wnaed yn y penodau blaenorol yn dibynnu llawer ar gael strwythur cefnogol i'w datblygu. Mae angen sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm a thrwy'r rhain gall cysylltiadau cryf rhwng partneriaid wneud darpariaeth ddiwniad o ran cyfleoedd mewn addysg gorfforol a chwaraeon ar gyfer pobl ifainc mewn ysgolion ac yn y gymuned. Gallai datblygiad o'r fath fod yn werthfawr er mwyn goresgyn y feirniadaeth, y tynnir sylw ati yn yr adroddiad hwn, oherwydd y diffyg partneriaeth strategol a chydgysylltiad rhwng addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

Fodd bynnag, er mwyn i bolisi droi yn ymarfer, mae angen cydweithrediad clòs hefyd rhwng y rhai sy'n llunio polisïau mewn llywodraeth genedlaethol a lleol. Bydd angen cydweithrediad hefyd ymhlith yr asianaethau noddi os yw pobl ifainc am gael budd o addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

**Rydym yn argymell:**

**5.1 y dylai'r Cynulliad benodi cyd-drefnydd cenedlaethol i reoli, monitro, arfarnu ac adrodd ar y modd y rhoddir argymhellion yr adroddiad hwn ar waith.**

**5.2 y dylid sefydlu grŏp llywio i gefnogi rhoi'r argymhellion ar waith.**

**5.3 y dylai'r Cynulliad sefydlu strwythur cydweithredol ar gyfer adnabod, atgyfnerthu a datblygu ymhellach arfer da sy'n bodoli mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol trwy weithredu peilot ar gyfer rhwydwaith o glystyrau datblygu cwricwlwm *(Atodiad 1)* er mwyn darparu cefnogaeth strwythurol i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Bydd angen ystod hyblyg o fodelau er mwyn adlewyrchu anghenion ac arbenigeddau unigol, yn lleol ac yn rhanbarthol.**

**Dylai'r strwythur ddarparu:**

- ***clwstwr o ysgolion, colegau a/neu ganolfannau hamdden er mwyn hyrwyddo cydgysylltu effeithiol a pharhad rhwng y cyfnodau allweddol mewn addysg;***
- ***rhwydwaith i atgyfnerthu a datblygu safonau da sy'n bodoli***

*mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol;*

- *rhwydwaith ar gyfer datblygu mentrau newydd mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol;*
- *canolfannau sydd wedi ymrwymo i ddarparu digon o amser, rheolaeth gefnogol a modd i adnabod a rhannu arfer da yn y rhaglen addysg gorfforol, y gweithgareddau allgwricwlaidd a mentrau fel Chwaraeon y Ddraig;*
- *canolfannau lle gellir datblygu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a darlithwyr dan hyfforddiant, myfyrwyr ar raglenni Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a hyfforddwyr chwaraeon;*
- *canolfannau sy'n datblygu cyd-ddarpariaeth a rhannu defnydd o adnoddau arbenigol;*
- *canolfannau sy'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch iechyd a ffitrwydd ac sydd wedi ymrwymo i athroniaeth ffordd o fyw lle cedwir yn heini;*
- *canolfannau a fydd yn darparu tystiolaeth o arfer da, i'w rannu drwy Gymru gyfan.*

## CANOLFANNAU DATBLYGU CWRICWLWM

Gallai Canolfan Datblygu Cwricwlwm gynnwys lleiafswm o bedwar sefydliad, y byddai o leiaf tri ohonynt yn ysgolion. Ni fyddai pob canolfan yn dilyn yr un model. Byddai angen i wahanol fodelau ddiwallu anghenion, diddordebau ac arbenigeddau sydd eisoes yn amlwg yn lleol ac yn rhanbarthol. Gallai'r modelau posibl gynnwys cymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, colegau addysg bellach ac uwch a chanolfannau hamdden. Dyma rai enghreifftiau posibl o wahanol Ganolfannau Datblygu Cwricwlwm:

**MODEL A**
Ysgol uwchradd, dwy brif ysgol gynradd sy'n ei bwydo a Choleg Addysg Bellach

**MODEL B**
Dwy ysgol uwchradd, tair ysgol gynradd gan gynnwys ysgol arbennig, a Phrifysgol

**MODEL C**
Dwy ysgol uwchradd, pedair ysgol gynradd a Chanolfan Hamdden

**MODEL Ch**
Tair ysgol uwchradd, 5 ysgol gynradd, ysgol arbennig, Canolfan Hamdden a Phrifysgol.

**MODEL D**
Ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd sy'n ei bwydo.

## Strwythurau Rheoli

Bydd gan Ganolfannau Datblygu Cwricwlwm **Reolwyr Prosiect**, er enghraifft ymgynghorydd Awdurdod Addysg Lleol, a fydd yn cydgysylltu â'r rheolwyr datblygu cwricwlwm ar gyfer pob canolfan. Bydd yn monitro ac yn arfarnu mentrau'r prosiect ac yn rhoi adroddiadau yn ôl y gofyn.

Bydd gan bob Canolfan Datblygu Cwricwlwm **Reolwr Datblygu Cwricwlwm** a fydd yn cefnogi ac yn rheoli'r mentrau datblygiadol mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn y ganolfan honno, er enghraifft Pennaeth Adran Addysg Gorfforol.

Bydd gan bob Canolfan Datblygu Cwricwlwm **Swyddog Datblygu Canolfan** a fydd yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon sy'n addysgu, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth yn canolbwyntio ar godi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. Gwneid hyn gyda chefnogaeth y rheolwr prosiect a'i reolwr datblygu cwricwlwm.

## ATODIAD 1 MATERION AR GYFER GWEITHREDU

| MATER | ARGYMHELLION |
|---|---|
| 1. **Rheolaeth** | • Sicrhau bod pob ysgol yn deall yr effaith y gall addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol ei chael ar sicrhau gwelliant yn yr ysgol.<br>• Sicrhau bod pob ysgol yn gosod targedau heriol ar gyfer codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. |
| 2. **Partneriaeth** | • Datblygu Grŵp Gweithredu ar Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol.<br>• Cryfhau cysylltiadau cwricwlaidd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau parhad a dilyniant wrth i'r disgyblion ddysgu.<br>• Datblygu cysylltiadau clòs rhwng ysgolion lleol, clybiau chwaraeon ac asiantaethau chwaraeon er mwyn gwella ac ehangu'r ddarpariaeth yn yr ysgolion.<br>• Gwella'r cydgysylltu rhwng cyrff llywodraethol asiantaethau chwaraeon ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol. |
| 3. **Amser** | • Darparu digon o amser fel y gall addysg gorfforol fodloni gofynion y CC ym mhob Cyfnod Allweddol a sicrhau y defnyddir yr amser yn effeithiol i ddarparu addysg gorfforol a chyfleoedd o ran chwaraeon sydd o ansawdd da ar gyfer pob disgybl. |
| 4. **Hyfforddi a Datblygu** | • Sefydlu continwwm hyfforddi a datblygu ar gyfer pob athro ac athrawes.<br>• Adolygu'r modd y dyrennir amser ar gyfer gwaith yn y coleg mewn addysg gorfforol ym mhob cwrs cynradd.<br>• Sicrhau bod pob hyfforddai yn cael cyfle i arsylwi ar arfer da wrth addysgu a rheoli addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.<br>• Sefydlu isafswm lefel medrusrwydd y mae'n rhaid i'r holl hyfforddeion ei chyrraedd pan fyddant yn cwblhau eu cwrs.<br>• Cyflwyno trefn ar gyfer datblygiad proffesiynol cynnar i bob Athro neu Athrawes Newydd Gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf fel athrawon.<br>• Gwella'r mynediad at gyrsiau o ansawdd da gan gorff llywodraethu hyfforddi/addysgu er mwyn ennill cymhwyster a phrofiad ychwanegol.<br>• Darparu ar gyfer pob athro/athrawes ddatblygiad proffesiynol parhaus cydnabyddedig sydd wedi'i gynllunio'n ofalus mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.<br>• Datblygu rôl yr arweinydd pwnc er mwyn sicrhau monitro manylach o'r ddarpariaeth ym mhob ysgol.<br>• Gwella medrusrwydd tiwtoriaid ac arolygwyr nad ydynt yn arbenigwyr ond sydd yn gwneud sylwadau ar ansawdd a safonau a gyflawnir mewn gwersi addysg gorfforol a addysgir gan hyfforddeion neu athrawon. |
| 5. **Ymarfer Corff** | • Hyrwyddo pwysigrwydd ffitrwydd corfforol a bod yn |

| | |
|---|---|
| **yng nghyd-destun Iechyd** | heini fel ffordd o fyw.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion allweddol iechyd a ffitrwydd. |
| **6. Cyfleusterau ac adnoddau** | • Gwella ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau mewn nifer mawr o ysgolion cynradd.<br>• Sicrhau bod y cyfleusterau sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw yn effeithiol. |
| **7. Darpariaeth allgwricwlaidd** | • Gwella'r cydbwysedd rhwng y ddau ryw a chyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau allgwricwlaidd.<br>• Annog ysgolion i ddatblygu strategaethau ar gyfer ehangu ystod y gweithgareddau allgwricwlaidd a chynyddu lefel cyfranogiad disgyblion.<br>• Sicrhau bod gweithgareddau allgwricwlaidd yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ehangu'r hyn a ddysga ac a gyflawna'r disgyblion. |

## ATODIAD 2 : RHESTR TERMAU

| | |
|---|---|
| **ACCAC** | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| **CYDAGP** | Cymdeithas Ymgynghorwyr a Darlithwyr Addysg Gorfforol Prydain |
| **PDG** | Proffil Dechrau Gyrfa |
| **DPP** | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| **Chwaraeon y Ddraig** | Menter o eiddo Cyngor Chwaraeon Cymru i geisio cynyddu'r cyfranogiad mewn gweithgareddau allgwricwlaidd cynradd |
| **Estyn** | Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **AHCA** | Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon |
| **AALl** | Awdurdodau Addysg Lleol |
| **CCC** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **CC** | Cwricwlwm Cenedlaethol |
| **CLlC** | Corff Llywodraethu Cenedlaethol |
| **ANG** | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| **CCN** | Cronfa Cyfle Newydd (Dosbarthwr i'r Loteri Genedlaethol) |
| **BDP – AG (Cymru)** | Bwrdd Datblygu Proffesiynol ar gyfer Addysg Gorfforol yng Nghymru |
| **CMIG** | Cymdeithas y Methedig a'r Iach o Gorff |
| **CChYR** | Cymdeithas Chwaraeon Ysgol Ranbarthol |
| **SDRh** | Swyddogion Datblygu Rhanbarthol |
| **SDCh** | Swyddogion Datblygu Chwaraeon |
| **CChC** | Cyngor Chwaraeon Cymru |

## ATODIAD 3: AELODAU'R TASGLU ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YN YR YSGOL

| | |
|---|---|
| David Cobner | Pennaeth yr Ysgol Chwaraeon, Addysg Gorfforol ac Adloniant, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |
| Goff Davies Casnewydd | Pennaeth Ysgol Uwchradd Hartridge, |
| Haydn Davies | Cadeirydd CYDAGP (Cymru) |
| Pru Davis | Ymgynghorydd, AALl Bro Morgannwg |
| Lynette Harris | Prif Ddarlithydd mewn Addysg Gorfforol, Adran Addysg Athrawon, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Merle Hunt | Ysgrifennydd CYDAGP (Cymru) |
| Huw Jones | Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Jeff Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Julia Longville | Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, Estyn |
| Richard Parry Jones | Cyfarwyddwr Addysg, AALl Ynys Môn |
| Hefin Parry | Pennaeth Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle, Sir y Fflint |
| Anne Rawlings | Pennaeth Addysg Gorfforol, Ysgol Gyfun Cenydd Sant, Caerffili |
| Menna Sweeney Ceredigion | Athrawes, Ysgol Plascrug, Aberystwyth, |
| Lynne Spackman | Swyddog Addysg Gorfforol; Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) |
| Gill Mitra<br>Mary Nichols | CMIG |
| John Howells | Adran Addysg a Hyfforddiant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Chris Reading<br>G Hallet | |

**Diolch**

Hoffai'r Tasglu ddiolch i Mr Graham Henry, Hyfforddwr Rygbi

Cenedlaethol Cymru, am ei gefnogaeth wrth baratoi'r adroddiad hwn.